# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Medi 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 155(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar ddiogelwch yr ystâd iechyd yn dilyn y newyddion bod digwyddiad mawr wedi ei ddatgan yn Ysbyty Llwynhelyg ym mis Awst?

**Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gyllideb 2023-24 Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni sylwebaeth barhaus gan Weinidogion yn y cyfryngau dros yr haf?

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru heddiw fod pob un o saith bwrdd iechyd Cymru mewn statws uwchgyfeirio?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar ddeiseb P-06-1337 - Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol

(30 munud)

**NDM8345** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol' a gasglodd 10,539 o lofnodion.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol

(60 munud)

**NDM8346** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: “Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol” a osodwyd ar 23 Mai 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Medi 2023.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

(60 munud)

**NDM8347** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiddymu Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022, sydd i ddod i rym ar 17 Medi 2023.

Dogfen ategol – Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022.

2. Yn nodi bod gostwng terfynau cyflymder lle mae pobl a cherbydau yn rhyngweithio fwyaf yn gallu achub bywydau.

3. Yn nodi bod eithriadau yn bosibl mewn lleoliadau y bernir eu bod yn briodol gan awdurdodau lleol.

4. Yn nodi pwysigrwydd cefnogaeth gymunedol i unrhyw newidiadau i'r terfyn cyflymder er mwyn sicrhau y gellir lleddfu pryderon gwirioneddol ac yn nodi ymhellach y gellir nodi rhagor o eithriadau ar ôl cyflwyno terfynau newydd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i adolygu effaith y terfynau newydd, grymuso awdurdodau lleol i wneud unrhyw eithriadau pellach a darparu cyllid digonol i awdurdodau lleol i hwyluso cyflwyno terfynau newydd.

Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8340** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Dod â'r Byd i Gymru - Sut rydym yn rhyddhau potensial Cymru fel cyrchfan dwristaidd fyd-eang o bwys?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Medi 2023